# THOMAS, ROBERT (bu farw 1774), bardd, a chlochydd Llanfair Talhaearn, sir Ddinbych

**Enw:** Robert Thomas
**Dyddiad marw:** 1774
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd, a chlochydd Llanfair Talhaearn, sir Ddinbych
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Barddoniaeth; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
**Awdur:** David Jenkins

Ef a gopïodd gan mwyaf o lawysgrif NLW MS 6146B a gynnwys gerdd rydd o'i waith ar y testun 'Cywydd y Dylluan' (193-8), a chyfieithiad ganddo o'r Lladin o ddarn o ryddiaith 'Am y flwyddyn a'i rhannau' (187 *et seq.*). Yn ei law ef hefyd y mae cofrestr eglwys Llanfair Talhaearn am y blynyddoedd 1740-74. Cyfeillion iddo oeddSiôn Powel, Dafydd Siôn Prys, ac Evan Evans ('Ieuan Brydydd Hir'). Fe'i claddwyd yn Llanfair Talhaearn ar 18 Rhagfyr 1774; canodd Dafydd Siôn Prys farwnad iddo (gweler *Additional Letters of the Morrises of Anglesey (1735-86)* , t. 736).

## Awdur

**Dr David Jenkins**, (1912 - 2002)

## Ffynonellau

Cofrestr eglwys Llanfair Talhaearn

Archifau LlGC: NLW MS 2039D: Letters to Ieuan Fardd, &c.

Archifau LlGC: NLW MS 5477B: Amrywiol ddeunydd llenyddol

H. Blackwell, NLW MSS 9251-9277A: A Dictionary of Welsh Biography

*Gwaith Talhaiarn* (Llundain 1855), 16

*Y Cymmrodor*, x, 53

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20804763

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

**Arddull APA**

×

Jenkins, D., (1953). THOMAS, ROBERT (bu farw 1774), bardd, a chlochydd Llanfair Talhaearn, sir Ddinbych. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 13 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-THOM-ROB-1774

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW

LLYFRGELL

THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government